



## Presenoldeb a Prydlondeb

### *Beth os fydd fy mhlentyn yn absennol, yn cyrraedd yn hwyr neu'n sâl yn ystod y diwrnod?*

Disgwylir i bob disgybl gan gynnwys disgyblion y 6ed dosbarth gyrraedd yr ysgol yn brydlon cyn cychwyn cofrestru am 8.55yb (h.y. erbyn 8.50yb). Mae presenoldeb a phrydlondeb disgyblion yn bwysig iawn ac yn cael ei fonitro yn ofalus. Mae tiwtoriaid dosbarth yn gyfrifol am gofrestru disgyblion bob bore a'r athrawon pwnc ar ddechrau bob gwrs. Os yw disgyblion yn absennol o'r ysgol gofynnir i rieni ddilyn yr arweiniad canlynol:

- Hysbysu tiwtor dosbarth o unrhyw absenoldeb sydd wedi'i drefnu o flaen llaw e.e. apwyntiadau meddygol/deintyddol. Rydym fodd bynnag yn awgrymu yn gryd y dylai apwyntiadau gael eu trefnu tu allan i oriau ysgol lle bynnag fo modd. Rhaid cyflwyno copi o gerdyn neu lythyr apwyntiad i'r Swyddfa Ysgol ar gyfer unrhyw apwyntiad o fewn oriau ysgol.
- Rhaid i ddisgyblion sy'n gadael tir yr ysgol cyn 3.30pm arwyddo allan yn Dderbynfa'r ysgol.
- Os yw eich plentyn yn sâl neu os oes absenoldeb annisgwyl, cysylltwch â'r ysgol drwy ffonio'r Dderbynfa ar: 01492 642800 neu drwy e-bostio [sp@dyffrynconwy.conwy.sch.uk](mailto:sp@dyffrynconwy.conwy.sch.uk)
- Pan fydd eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol yn dilyn absenoldeb, gofynnwn i chi anfon llythyr yn egluro'r absenoldeb er mwyn i'r ysgol ystyried a yw'r absenoldeb yn un awdurdodedig neu anawdurdodedig. Os nad oes esboniad am yr absenoldeb, bydd yr ysgol yn cysylltu er mwyn cael eglurhad am yr absenoldeb.
- Disgwylir i ddisgyblion sy'n cyrraedd yr ysgol yn hwyr (h.y. ar ôl 8.55am) arwyddo mewn yn y Dderbynfa gan roi rheswm pam eu bod yn hwyr.
- Mae'r ysgol yn dilyn polisi Presenoldeb Awdurdod Lleol Conwy. Ceir copïau o wybodaeth gan yr ALL am absenoldebau gan gynnwys gwyliau yn ystod tymor ysgol a rhybudd cosb ar dudalen Gwybodaeth ein safwe. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol bydd yr ysgol yn caniatáu gwyliau o fewn amser ysgol. Am ganiatâd i ddisgybl fod yn absennol o'r ysgol am gyfnod penodol, ceir ffurflen berthnasol o dderbynfa'r ysgol.
- Os yw disgybl yn sâl neu yn cael damwain yn ystod y diwrnod ysgol, bydd y disgybl yn cael ei gyfeirio at aelod o staff Cymorth Cyntaf yr ysgol. Bydd y swyddfa yn cysylltu gartref os yw'r disgybl yn cael ei ystyried yn rhu sâl i aros yn yr ysgol. Gofynnir i chi sicrhau fod manylion cyswllt cywir gan yr ysgol a'i fod yn cael ei ddiweddarau yn syth os oes unrhyw newid. Nid oes caniatâd i ddisgyblion gysylltu adref yn uniongyrchol heb roi gwybod i aelod o staff perthnasol. Disgwylir i unrhyw riant/gofalwr sydd yn dod i gasglu disgybl o'r ysgol o fewn oriau ysgol dod i'w casglu o'r Dderbynfa a sicrhau eu bod yn arwyddo allan.

**Data Presenoldeb:** Canran presenoldeb ysgol gyfan 2018/19 – 95.1%. **Targed 2019/20 – 95.3%.**